Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun nos Lun, 25 Ionawr 2016 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Cynghorydd Anne Roberts (Maer)
Y Cynghorwyr Stephen Beach, James Bryan, Elisabeth Culshaw, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Geraint Woolford, Heather Williams ac Emrys Wynne.
Hefyd y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts.

162. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bob Costain a June Derry.

163. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Ken Hawkins fuddiant personol yn eitem agenda rhif 16, Cyfrifon i'w Talu – siec rhif 848 am lifoleuadau Eglwys Sant Pedr.

164. ADRODDIAD Y MAER

Hysbysodd y Maer ei bod wedi cyflawni'r isod ers y cyfarfod diwethaf:

22/12 Ymweld ag Ysbyty Rhuthun – Carolau â Chôr Derwen
06/01 Hubbub – Fforwm Pobl dros 55 oed – Llys Erw
09/01 Agoriad swyddogol y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun
14/01 Cyflwyno deiseb ynghylch cartref gofal Awelon yn Neuadd y Sir
15/01 Clwb yr Inner Wheel – te prynhawn yn Llys Erw
18/01 Cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da – Neuadd y Dref
21/01 Pwyllgor Gefeillio
22/01 Cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru – Llandrillo yn Rhos

165. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cynghorydd Stephen Beach	Cyfarfod Hubbub – Fforwm i'r rhai dros 55 oed, agor y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, cyflwyno deiseb i Gyngor Sir Ddinbych ynghylch cartref gofal Awelon, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, cyfarfod Gwarchod y Gymdogaeth Heddlu Gogledd Cymru ym Mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru, Glan y Don
Cynghorydd James Bryan	Agor y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun, cyfarfod â'r Heddlu ynghylch trefniadau Gŵyl Rhuthun, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da
Cynghorydd Elisabeth Culshaw	Gwasanaeth Carolau Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun, agor y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da
Cynghorydd Ken Hawkins	Agor y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun ac angladd tad y Maer
Cynghorydd Rosie Hughes-Moseley	Cyfarfod Elusennau Rhuthun
Cynghorydd Menna Jones	Hubbub – Fforwm i'r rhai dros 55 oed, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da ac agor y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun,
Cynghorydd Ian Lewney	Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, Cyfarfod Blynyddol Siambr Fasnach Rhuthun
Cynghorydd Robert Owen-Ellis	Banc bwyd x 5, agor y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun, archwiliad Anghenion Dysgu Ychwanegol Ysgol Pen Barras
Cynghorydd Geraint Woolford	Carolau yn Ysbyty Rhuthun, agor y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun, Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, cyfarfod gyda'r Maer ynghylch Doniau Rhuthun, cyfarfod y Gymdeithas Gefeillio a chyfarfod Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn Llandrillo yn Rhos.
Cynghorydd Heather Williams	Agor y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun
Cynghorydd Emrys Wynne	Agor y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun

166. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2015 yn gywir.*

167. MATERION YN CODI

Darllenodd y Maer ddau lythyr o ddiolch am gymorth ariannol oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy 2016 a Chlwb Gymnasteg Rhuthun a Dinbych. Adroddodd y Maer y cafwyd ateb oddi wrth Mrs Helen Burnham, Rheolwr Gweinyddiaeth Pensiynau, Cronfa Bensiwn Clwyd, ynghylch defnyddio'r gronfa fel darparydd cynllun pensiwn i Glerc y Dref. Byddai'r gyfradd cyfraniad ar gyfer cyflogwr newydd ar gyfer un cyflogai yn £900 + TAW. Roedd y neges e-bost yn gofyn am gadarnhad erbyn 31 Ionawr 2016.
***PENDERFYNWYD**: fod y Clerk yn ceisio cyngor gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a chynghorau tref a chymuned eraill, ac awdurdodi'r Maer a'r Clerc i ymdrin â hyn.*

168. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2016. Wrth gyfeirio at yr eitem yn galw am ganllaw wrth Fanc Barclays ar Stryd Clwyd, adroddodd y Cynghorydd Emrys Wynne fod un o drigolion y dref wedi cysylltu ag ef gan ei fod ef a'i wraig wedi syrthio ar yr arwyneb llithrig ger cofeb Tom Pryce. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y tir, ac a oes modd rhoi arwyneb gwrth-slip ar yr arwyneb hwn.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

169. PRISIAU AM DORRI GLASWELLT, PLANWYR A DYFRIO'R PLANWYR

Derbyniodd yr aelod gopi o eiriad arfaethedig hysbyseb yn gofyn am brisiau am gyflawni'r gwaith uchod yn ystod tymor 2016/17 ynghyd â chost cynnwys yr hysbyseb yn y Daily Post - £306.00 + TAW.
***PENDERFYNWYD**: bwrw ymlaen â rhoi'r hysbyseb yn y Daily Post.*

170. GWOBR DINESYDD DA

Cyflwynwyd diweddariad i'r aelodau yn dilyn cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2016. Bydd posteri yn hysbysu am y wobr yn cael eu gosod mewn gwahanol leoliadau yn Rhuthun, a bydd y ffurflen gais a'r meini prawf ar gael ar wefan y Cyngor. Eleni bydd yr enillwyr yn derbyn gwahoddiad i Sul Dinesig y Maer, yn ogystal â derbyn tystysgrif a £100 tuag at elusen o'u dewis. Y dyddiad cau ar gyfer enwebu yw 31 Mawrth 2016.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r diweddariad.*

171. YSWIRIANT - ZURICH

Hysbysodd Clerc y Dref yr aelodau am yr hysbysiad adnewyddu yswiriant gan Zurich Municipal am y cyfnod 1 Chwefror 2016 i 31 Ionawr 2017 ar gost o £4,380.02.
***PENDERFYNWYD**: derbyn yr hysbysiad a thalu am yr yswiriant.*

172. DIWRNODAU PARCIO AM DDIM 2016

Cadarnhawyd fod Cyngor Sir Ddinbych yn cynnig pum niwrnod parcio am ddim ym meysydd parcio Rhuthun yn 2016. Holodd yr aelodau pa ddiwrnodau a ddewiswyd y llynedd, a chadarnhaodd y Clerc y cynigiwyd parcio am ddim ar ddiwrnod 'Top Dre' Gŵyl Rhuthun, dydd Sadwrn y penwythnos Drysau Agored, achlysur marchnad Nadolig/goleuo'r goleuadau ar y goeden ddiwedd Tachwedd a'r ddau ddydd Sadwrn dilynol.
***PENDERFYNWYD**: gohirio penderfyniad er mwyn cael cadarnhad ynghylch dyddiadau Drysau Agored a'r marchnadoedd yn 2016.*

173. MOWLD GWYDRFFIBR COFEB TOM PRYCE

Hysbysodd Clerc y Dref fod John Dickson o Uned Rheoli Cyfleusterau Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno i gludo'r mowld gwydrffibr 8 troedfedd x 4 troedfedd o stiwdio'r crewr Neil Dalrymple i'w storio yn y Storfeydd Corfforaethol, Lôn Parcwr, Rhuthun. Mynegodd aelodau bryder am yr unedau stiwdio gwag a'r diffyg cyfleusterau caffi yn y Ganolfan Grefft ar hyn a bryd, a gwnaeth y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts eu sicrhau fod rhai â diddordeb gweithredu'r caffi, ac y byddai'r broses dendro wedi ei chwblhau erbyn y Pasg.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r manylion ynghylch symud a storio'r mowld.*

174. GOHEBIAETH

Derbyniodd yr aelodau lythyrau neu negeseuon e-bost ynghylch Cyfarfod Blynyddol Apêl Canser Gogledd Cymru, Cyfarfod Blynyddol Undeb Credyd Gogledd Cymru, sesiynau rhoi gwaed yn Rhuthun, digwyddiad Diwrnod Lluoedd Arfog Gogledd Cymru, Diwrnod Partneriaeth y Rhyfel Byd Cyntaf a Goleufeydd Pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r ohebiaeth.*

175. AMCANGYFRIFON ARIANNOL 2016/17

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, amcangyfrifon ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2017. Amcangyfrifwyd y byddai'r gwariant yn 2016/17 yn £123,125, ac aeth y Clerc drwy bob eitem yn y gyllideb, yn cynnwys awgrym i gynyddu'r gyllideb cyfraniadau i £4,000 y flwyddyn nesaf a chlustnodi £30,000 ar gyfer Canolfan Grefft Rhuthun/Cyfleusterau Hamdden i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg posibl yn y cyllid gan Gyngor Sir Ddinbych. Y praesept sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwariant arfaethedig yw £122,506, sy'n hafal i Dreth Gyngor Band D o £51.43, sy'n lleihad bach o'i gymharu â 2015/16 oherwydd cynnydd yn nifer y cartrefi sy'n ffurfio'r sail y Dreth Gyngor.
***PENDERFYNWYD**: derbyn yr amcangyfrifon a'r praesept sy'n ofynnol.*

176. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Rhagfyr 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

177. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: awdurdodi talu'r cyfrifon isod.*

841	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		259.43
842	HCI Data Limited	Adnewyddu cyngortrefrhuthun.gov.uk a ruthintowncouncil.gov.uk am ddwy flynedd	*	167.40
843	Marian Rees	Cyfieithu	*	90.00
844	Zurich	Adnewyddu yswiriant		4,380.02
845	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cinio x 2 yn dilyn y cyfarfod ar 22 Ionawr		30.00
S.O.	Canda Copying Limited	Rhentu a chopïau isafswm	*	129.14
846	Canda Copying Limited	Copïau ychwanegol – du a gwyn	*	11.27
847	Canda Copying Limited	Copïau ychwanegol – lliw	*	46.01
848	Eglwys Sant Pedr, Rhuthun	Llifoleuo, 1 Ionawr 2015 - 31 Rhagfyr 2015		610.57
849	G J Teeson Ltd	Gwaith trwsio ffens y Caeau Chwarae Coffa	*	252.00
850	Don Jackson-Wyatt	Hawlfraint delwedd y cerdyn Nadolig – siec newydd yn enw Don Jackson-Wyatt yn lle siec i The Don Photography		50.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £115.97)

178. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref, sef nos Lun, 22 Chwefror 2016.*